Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 26 Medi 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Cynghorydd Geraint Woolford (Maer)
Y Cynghorwyr James Bryan (Dirprwy Faer), Stephen Beach, June Derry, Ken Hawkins, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

72. CYFLWYNIAD AR FEYSYDD CHWARAE, CAE DDÔL A MATERION YN YMWNEUD Â'R STRYDLUN

Croesawodd a chyflwynodd y Maer Simon Billington, Rheolwr Gweithrediadau Priffyrdd a Strydlun (De Sir Ddinbych), Cyngor Sir Ddinbych, a oedd wedi ei wahodd i siarad ag aelodau ynghylch y posibilrwydd o lunio cytundeb trosglwyddo asedau i drosglwyddo meysydd chwarae Cae Ddôl a Maes y Dre i Gyngor Tref Rhuthun oherwydd toriadau i'r gyllideb yng Nghyngor Sir Ddinbych a oedd yn golygu nad oedd arian ar gael i'w fuddsoddi yn y safle. Awgrymodd y byddai cynghorau tref a chymuned yn medru cael gafael ar ffrydiau cyllid gwahanol, a dywedodd bod Cyngor Tref Prestatyn, er enghraifft, wedi sicrhau £80k o gyllid o gronfeydd ffermydd gwynt ar y môr i'w fuddsoddi mewn meysydd chwarae. Pwysleisiodd ei fod am ymgysylltu â'r cyngor tref yn gynnar, ar gyfer yr hyn a allai fod yn broses o rhwng dwy a phedair blynedd. Mynegodd yr aelodau bryderon mai'r argraff oedd yn cael ei gyfleu oedd bod dadgomisiynu yn dechrau eisoes, a gofynnwyd beth yn union oedd yn mynd i ddigwydd. Dywedodd cynghorydd fod yr arwynebau yng Nghae Ddôl wedi dirywio eisoes. Roedd y Cynghorwyr yn bryderus y gallai hyn olygu y byddai'n rhaid i Gyngor Tref Rhuthun gynyddu ei braesept, a rhoi pwysau ychwanegol ar y Clerc fel unig gyflogai'r Cyngor Tref. Roeddynt hefyd yn bryderus y gellid eu hystyried fel 'y blaidd mawr drwg' os nad oeddynt yn derbyn cyfrifoldeb am y meysydd chwarae.

PENDERFYNWYD*: rhoi hyn yn eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn trafod y mater ymhellach.*

73. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Rosie Hughes-Moseley a Simeon Jones.

74. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau o fudd personol gan y Cynghorydd Emrys Wynne o ran eitem 13 a'r Cynghorydd Ken Hawkins o ran eitem 14, a gwnaethant lenwi a llofnodi ffurflenni datgan budd.

75. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer am yr ymweliadau isod ers y cyfarfod blaenorol.

27.07 Ail-lansio bwyty'r Clwyd Gate
29.07 Datganiad ar yr organ a chyflwyniad yn Eglwys San Pedr
10.08 Cwpan Davis yn y Clwb Tennis
13.08 Lansio ac anerchiad agoriad yn nigwyddiad Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun – bore a phrynhawn
14.08 Lansio ac anerchiad agoriad yn nigwyddiad Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun – bore a phrynhawn
15.08 Cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys
20.08 Agor Arddangosfa Clwb Arlunio Rhuthun yn Eglwys San Pedr
22.08 Cyfarfod â'r Heddlu
24.08 Cyfarfod gydag Amanda Brewer, Rheolwyr Datblygu'r Prosiect, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun
01.09 Cyfarfod Cangen Rhuthun y Lleng Brydeinig, gyda chyflwyniad gan y Cyn-filwyr Dall
04.09 Gwasanaeth Sul Dinesig Maer Llanelwy
10.09 Agor penwythnos Drysau Agored Rhuthun a'r Cylch

11.09 Lansio Cystadleuaeth Golff Troed i godi arian at gronfa Rhyddid Freya
12.09 Cyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon
Lluniau i'r Denbighshire Free Press gyda merch ifanc yn cyflawni'r her 22 ymarfer byrfraich ar y Sgwâr
13.09 Cyfweliad gyda'r BBC ynghylch y cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer yr ysgolion newydd ar safle Glasdir
15.09 Cyfarfod y Gymdeithas Efeillio
22.09 Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun

76. ADRODDIADAU'R AELODAU

Y Cyng. James Bryan (Dirprwy Faer)	Truckfest yng Nghaerwys, Pwyllgor Pwerau Brys, cyfarfod gyda'r Heddlu, Sioe Flodau Rhuthun, cyfarfod rheoli a Chyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon, Grŵp Llywio Rhuthun a Gwasanaeth Dinesig Maer Prestatyn.
Y Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Gwarchod Cymdogol x 2, dosbarthu taflenni ar Sgwâr San Pedr, Sioe Flodau Rhuthun, hyfforddiant safle micro, cyfarfod Cangen Rhuthun y Lleng Brydeinig, penwythnos Drysau Agored Rhuthun a'r Cylch a Hubbub – Fforwm i'r rhai dros 50 oed.
Y Cyng. Ken Hawkins	Sioe Flodau Rhuthun, penwythnos Drysau Agored Rhuthun a'r Cylch a Chyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon.
Y Cyng. Robert Owen-Ellis	Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras, casglu bwyd ar gyfer y Banc Bwyd – rhoddwyd tunnell o fwyd yn ychwanegol at y cyfraniadau wythnosol, Gŵyl Rhuthun, noson Dathlu Llwyddiant yn Ysgol Brynhyfryd, Sul Dinesig y Maer, Banc Bwyd x 3 ym mis Awst, Cyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon, trafodaethau ynghylch cynlluniau ar gyfer adeilad newydd Ysgol Pen Barras, noson Dathlu Llwyddiant Disgyblion Blwyddyn 11 a 13 yn Ysgol Brynhyfryd a Grŵp Llywio Rhuthun.
Y Cyng. Menna Jones	Taith Cwpan Davis yn y Clwb Tennis, penwythnos lansio Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun a Sioe Flodau Rhuthun.
Y Cyng. Anne Roberts	Fforwm i'r rhai dros 50 oed yn Llys Erw, taith Cwpan Davis yn y Clwb Tennis, dosbarthu taflenni ar Sgwâr San Pedr x 3, penwythnos lansio Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, Pwyllgor Pwerau Brys, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, Sioe Flodau Rhuthun, cyfarfod gyda Darren Millar AC a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun yng Nghastell Rhuthun, penwythnos Drysau Agored Rhuthun, ymweld â Brownies Rhuthun a chyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun.
Y Cyng. Heather Williams	Penwythnos lansio Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, penwythnos Drysau Agored Rhuthun a'r Cylch a chyfarfod ffocws Sgwrs y Sir yn Nhrefnant.
Y Cyng. Emrys Wynne	Gosod 'gazebos' ar gyfer Sioe Flodau Rhuthun.

77. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016 yn gywir.*

78. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

79. Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Ar ôl nodi y byddai cylch gorchwyl y Pwyllgor Pwerau Brys yn cael ei drafod fel eitem ar wahân, derbyniwyd a mabwysiadwyd y cofnodion.

80. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

81. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

82. DYDDIADAU CYFARFODYDD YN 2017

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth y byddai Cinio Elusennol y Maer yn cael ei gynnal ddiwedd Chwefror 2017. Ystyriwyd dyddiadau'r cyfarfodydd yn 2017, yn cynnwys cais gan y Dirprwy Faer i newid dyddiad cyfarfod mis Mehefin a chais gan y Clerc i newid dyddiad cyfarfod mis Gorffennaf.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y ceisiadau a dosbarthu rhestr dyddiadau wedi'u diweddaru, gyda chyfarfod mis Mehefin i'w gynnal ar 19 Mehefin a chyfarfod mis Gorffennaf i'w gynnal ar 17 Gorffennaf.*

83. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Bu'r aelodau'n trafod cylch gorchwyl y Pwyllgor uchod. Esboniodd y Clerc nad oes canllawiau yn y Rheolau Sefydlog nac unrhyw ddogfennau eraill ynghylch yr eitemau y gellir eu hystyried gan y Pwyllgor hwn. Awgrymodd y Cynghorydd Emrys Wynne eiriad a ddefnyddir gan Gyngor Tref Thatcham ac awgrymodd y Cynghorydd Ian Lewney osod trothwyon ariannol ar gyfer eitemau y gellir eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor.
***PENDERFYNWYD**: derbyn copi o'r geiriad ac ystyried y materion hyn yn y cyfarfod nesaf er mwyn addasu'r Rheolau Sefydlog yn unol â hynny.*

84. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CANOLFAN LLANFWROG

Derbyniodd y Cynghorwyr yr wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani yng nghyswllt y cais am £5,000 o gymorth ariannol tuag at gostau gosod grisiau a lifft yn Y Ganolfan.
***PENDERFYNWYD**: trefnu cyfarfod rhwng y Maer, y Clerc a Chadeirydd Cymdeithas Gymuned Llanfwrog i drafod y cais yn fanwl.*

85. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – PROSIECT CLYCHAU EGLWYS SAN PEDR

Derbyniodd yr aelodau ragor o wybodaeth ysgrifenedig gan Mrs Jennifer Trigger, yn dilyn ei chyflwyniad i'r Cyngor Tref ym mis Gorffennaf, yng nghyswllt cais am gymorth ariannol gwerth £3,299.00 ynghyd â TAW, sef cost ailosod mecanwaith y cloc.
***PENDERFYNWYD**: cytuno i'r cais am gymorth ariannol i symud ac ailosod mecanwaith y cloc, sef £3,299.00 + TAW.*

86. DIGWYDDIAD AIL-LENWI ARFAETHEDIG RALI GB CYMRU YN RHUTHUN

Ystyriodd yr aelodau'r cynnig a chais am gyfraniad ariannol tuag at gost y sgrîn fawr a darlledu cymalau'r rali ar gost o £1,275.00
***PENDERFYNWYD**: cefnogi'r digwyddiad hwn a rhoi cyfraniad 50%, sef £1,275.00.*

87. PROSIECT Y RHWYDWAITH iBEACON

Yn sgîl cyflwyniad i'r Pwyllgor Amwynderau ynghylch y prosiect uchod, derbyniodd yr aelodau wybodaeth am y cynnig a buont yn ystyried y ffi o £750 i gymryd rhan yn y prosiect.
***PENDERFYNWYD**: bod yr aelodau o blaid cymryd rhan yn y prosiect a byddent yn derbyn rhagor o wybodaeth gan y Cynghorydd Emrys Wynne yn dilyn ymweliad â safle lle'r oedd y dechnoleg eisoes yn weithredol.*

88. ESTYNIAD I FYNWENT LLANRHYDD

Bu'r aelodau'n ystyried geiriad yr arwydd i'r osod yn y fynweent yn dilyn cyfraniad Cyngor Tref Rhuthun tuag at brynu tir yr estyniad. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Emrys Wynne i ddrafftio'r

geiriad ar sail yr arwydd dros dro eisoes yn y fynwent.
PENDERFYNWYD*: derbyn y geiriad drafft gan y Cynghorydd Wynne i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Amwynderau.*

89. CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Ystyriodd yr aelodau wahoddiad i Gyfarfod Chwarterol y Gymdeithas i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor Tref y Rhyl ddydd Gwener, 21 Hydref 2016 am 10.30am, ynghyd â chinio am £16.00 y pen.
PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorwyr Geraint Woolford ac Anne Roberts yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun yng nghyfarfod chwarterol nesaf Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.*

90. TŴR CLOC PEERS

Ystyriodd yr aelodau gais am ganiatâd i osod goleuadau a system sain ar/o gwmpas Tŵr Cloc Peers a defnyddio'r socedi trydan ar gyfer cyfnod Nos Galan 2016 tan Ddiwrnod Calan 2017 gan Jeff Brimble a David Smith, gyda hysbysiad digwyddiad dros dro eisoes wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD*: rhoi caniatâd i osod goleuadau a system sain ar/o gwmpas Tŵr Cloc Peers.*

91. PRISIAU PARCIO YM MEYSYDD PARCIO RHUTHUN

Bu'r aelodau'n ystyried cais i leihau cost prisiau parcio yn Rhuthun, ynghyd â deiseb gysylltiedig yn gwrthwynebu'r cynnydd mewn prisiau a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych. Roedd y cais yn gofyn i Gyngor Tref Rhuthun roi cymhorthdal er mwyn lleihau'r prisiau parcio. Cafwyd trafodaeth fanwl ymlith yr aelodau, gan ystyried y gost, defnydd arian trethdalwyr lleol a nifer y mannau parcio am ddim ar gael yn Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: peidio â rhoi cymhorthdal i leihau'r prisiau parcio ac i'r Maer a'r Clerc ddrafftio llythyr ymateb i'r unigolyn a gyflwynodd y cais.*

92. CYMHWYSTER CiLCA

Ystyriodd yr aelodau gais gan y Clerc i gofrestu ar gyfer y cymhwyster Tystysgrif Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) a gynigir gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a fyddai'n cynnwys pedwar diwrnod o hyfforddiant yn yr Wyddgrug yn 2017 am ffi o £250 + TAW a chofrestru'r cymhwyster ymhen 12 mis ar gost o £250.
PENDERFYNWYD*: cytuno i gais y Clerc i gofrestru ar gyfer Cymhwyster CiLCA ar gost o £250 + TAW.*

93. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Awst 2016.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Awst 2016.*

94. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon isod.*

925	Grŵp Arlunio Rhuthun	Cyfraniad tuag at yr Arddangosfa Arlunio, Awst 2016	£176.00
926	Y Cynghorydd J. Bryan	Costau teithio i fynd i gyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Nghei Connah 15.07.16	£18.90
928	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun	Cyfraniad tuag at atgyweirio ac adfer cysylltfuriau'r castell	£4,200.00
929	J & C Brimble	Basket watering	£888.00

930	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Medi		£342.60
931	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£252.83
932	Sandra Williams	Cyflog yn ddyledus		£61.22
933	Sandra Williams	Costau teithio		£31.95
D.D.	BT	Gwasanaethau ffôn	*	£97.87
934	Fineline	Pocedi plastig a deunyddiau argraffu	*	£42.42
935	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
936	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Siec yn lle'r siec gwreiddiol am ddau		£30.00

95. GOHEBIAETH

Cyflwynwyd yr eitemau gohebiaeth isod i'r aelodau eu hystyried:

i. Darren Millar – diweddariad ar ofal amenedigol

ii. Comisiwn Ffiniau Cymru – adolygiad 2018 etholaethau seneddol yng Nghymru, cynigion dechreuol

PENDERFYNWYD*: nodi'r ohebiaeth.*

96. Y LLWYBR CYHOEDDUS O FFERM GLASDIR I GLWB PELDROED RHUTHUN

Holi p'un ai fydd y llwybr cyhoeddus cyfan yn cael arwyneb caled yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu'r ysgolion newydd ar safle Glasdir.

PENDERFYNWYD*: nodi'r ymateb gan Ben Wilcox-Jones yn nodi y byddai'n gwneud cais am gyllid yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18 i dalu am arwyneb caled ar hyd y llwybr cyfan.*

97. SGWRS Y SIR – GRŴP FFOCWS

Hysbysodd y Clerc yr aelodau bod gwahoddiad i unrhyw aelodau fynd i'r ail grŵp ffocws ar gyfer Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd ar 27 Medi 2016 am 6 o'r gloch.

PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorwyr Geraint Woolford, James Bryan, Menna Jones ac Emrys Wynne a'r Clerc yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun yn y cyfarfod.*

98. CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU – AROLWG COMISIWN FFINIAU

Gofynnwyd am ymatebion i gwestiynau'r holiadur gan yr aelodau fel bod y Clerc yn medru ymateb i Gymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru erbyn 30 Medi.

PENDERFYNWYD*: y dylai'r aelodau nad oedd wedi ymateb hyd yma anfon eu hymatebion at y Clerc.*

99. Y SEFYDLIAD CATALOG CYHOEDDUS / ART UK

Ystyrioedd yr aelodau neges gan y Sefydliad Catalog Cyhoeddus gyda chais i ddiweddaru cytundeb y Cyngor Tref â'r Sefydliad i adlewyrchu'r symud i Art UK.

PENDERFYNWYD*: awdurdodi'r Clerc i ddiweddaru'r cytundeb ar-lein ar ran Cyngor Tref Rhuthun.*

100. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 24 Hydref 2016.*